# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## DYDD IAU, 17 HYDREF 2019

## BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Thomas, J.Woodman-Ralph, J.Hodges a/ac K.Warren

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd P D Richards yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Medi 2019 fel cofnod cywir.

3. **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH GOFALWYR BAE'R GORLLEWIN 2018 -19**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

4. **ADRODDIAD BLYNYDDOL BYRDDAU DIOGELU BAE'R GORLLEWIN 2018-19**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **POLISI CLUDIANT A CHYMORTH**

**Penderfyniad:**

Rhoi Polisi Cludiant â Chymorth y Gwasanaethau i Oedolion ar waith fel yr atodir yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ystyried y cryfderau a'r adnoddau cludiant sydd ar gael i unigolion a, lle bo'n berthnasol, eu gofalwyr wrth asesu neu ailasesu anghenion unigolyn. Bydd hyn yn sicrhau bod teithio annibynnol yn cael ei hyrwyddo lle bo modd, bod amrywiaeth cynaliadwy o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion o safon ar gael i ddiwallu anghenion dinasyddion mwyaf diamddiffyn Castell-nedd Port Talbot, a bydd hefyd yn cyfrannu at yr arbedion cyllidebol a nodwyd ym Mlaengynllun Ariannol y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Roedd aelodau yn flaenorol wedi cymeradwyo cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 90 niwrnod mewn perthynas â'r polisi. Yn ystod y cyfnod hwn, rhwng 8 Ebrill a 8 Gorffennaf 2019, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgynghori a chynnwys. Manylir ar ganlyniad y gweithgarwch yn Atodiad 4 yr adroddiad a ddosbarthwyd. Mae hyn wedi helpu i gadarnhau cynnwys y polisi terfynol.

6. **POLISI TEGWCH DARPARIAETH GWASANAETHAU**

**Penderfyniad:**

Rhoi Polisi Tegwch Darpariaeth Gwasanaethau y Gwasanaethau i Oedolion ar waith fel a nodwyd yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ystyried yr adnoddau gofal cymdeithasol sydd ar gael wrth asesu neu ailasesu anghenion unigolyn. Er mwyn gallu

sicrhau bod amrywiaeth cynaliadwy o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion o safon ar gael i ddiwallu anghenion dinasyddion mwyaf diamddiffyn Castell-nedd Port Talbot, a chyfrannu at yr arbedion cyllidebol a nodwyd ym Mlaengynllun Ariannol y cyngor

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Rhoddir y penderfyniad ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Ar 7 Mawrth 2019 cymeradwywyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 90 niwrnod mewn perthynas â'r polisi. Yn ystod y cyfnod hwn, rhwng 24 Ebrill a 23 Gorffennaf 2019, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgynghori a chynnwys. Helpodd manylion y gweithgarwch hwnnw, fel a nodwyd yn Atodiad 4 yr adroddiad a ddosbarthwyd, i gadarnhau cynnwys y polisi.

7. **ADOLYGIAD O WASANAETHAU CEFNOGI YN Y GYMUNED - CYDLYNWYR ARDALOEDD LLEOL**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

8. **CYNLLUN BLYNYDDOL GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID AC YMYRRYD YN GYNNAR CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2019-2020**

**Penderfyniad:**

Trosglwyddo Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot i'r cyngor i'w gymeradwyo.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn galluogi Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot i gyflawni ei ddyletswyddau i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys atal pobl ifanc rhag cyrraedd y system cyfiawnder ieuenctid, goruchwylio pobl ifanc yn y gymuned, y

sefydliadau diogel, cefnogi teuluoedd a dioddefwyr mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

9. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 19/20.

10. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11. **TREFNIADAU CONTRACT AR GYFER GWASANAETH CEFNOGI BYWYDAU A RENNIR**

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ymrwymo i gontract ag Ategi Shared Lives ar gyfer darparu gwasanaeth cefnogi bywydau a rennir ar gyfer y cyfnod o 1 Mai 2020 i 30 Ebrill 2021 gydag opsiwn i estyn y contract am gyfnod o 12 mis ychwanegol fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ddarparu'r gwasanaeth a chynnig y gwerth gorau am arian i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 12. TREFNIADAU CONTRACT AR GYFER DARPARU CYNLLUN PEILOT CEFNOGAETH FEL Y BO'R ANGEN AR GYFER CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

**Penderfyniad:**

Yn amodol ar amodau a dyraniad Grant Cartrefi â Chymorth Llywodraeth Cymru, caiff Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yr awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i gontract â Chanolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru er mwyn darparu gwasanaethau cefnogi camddefnyddio sylweddau sy'n gysylltiedig â thai. Hyd y contract fydd o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021, gydag opsiwn i estyn y contract am gyfnod o 12 mis ychwanegol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Er mwyn galluogi'r cyngor i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol a chynnig y gwerth gorau am arian i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**